# OWEN, DAVID ('Dafydd y Garreg Wen '; 1711 - 1741), telynor

**Enw:** David Owen
**Ffugenw:** Dafydd Y Garreg Wen
**Dyddiad geni:** 1711
**Dyddiad marw:** 1741
**Rhiant:** Gwen Humphreys (née Roberts)
**Rhiant:** Owen Humphreys
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** telynor
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Robert David Griffith

Bedyddiwyd 27 Ionawr 1711 (cofnod yn Llyfrgell Coleg y Gogledd), mab Owen Humphreys, Ynyscynhaearn, Sir Gaernarfon, a Gwen (Roberts), Isallt Fawr, Llanfihangel-y-pennant (Eifionydd) - gweler J. E. Griffith, *Pedigrees*, 353. Fe'i dygwyd i fyny'n delynor, ac y mae llawer o draddodiadau amdano; priodolir iddo'r alawon ' Dafydd y Garreg Wen,' ' Codiad yr Ehedydd,' a ' Difyrrwch Gwyr Cricieth.' Bu farw ar 2 Awst 1741, a chladdwyd ef ym mynwent Ynyscynhaearn.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau

Edward Jones, *Musical and poetical relicks of the Welsh bards*(London 1784)

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

R. Griffith, *Llyfr Cerdd Dannau* (Caernarfon 1913)

*Y Brython*, 1862-3

*Cymru (O.M.E.)*, iii

*Y Cymro*, Mehefin a Gorffennaf 1949

## Darllen Pellach

Pwyll ap Siôn a Wyn Thomas (gol.), *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), tt. 329-330

Erthygl Wicipedia: David Owen

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5238279

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Griffith, R. D., (1953). OWEN, DAVID ('Dafydd y Garreg Wen '; 1711 - 1741), telynor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-OWEN-DAV-1709

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGELL
THE NATIO
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government